**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS(2)-07-03(p.3)**

**Dyddiad:** **26 Tachwedd 2003**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Hynt y gwaith o weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor blaenorol ar oblygiadau'r Adroddiad ar Ymchwiliad Phillips (BSE) i Gymru**

## Diben

1. Ystyried hynt y gwaith o weithredu argymhellion adroddiad y pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol ym mis Chwefror 2001 ar oblygiadau'r Adroddiad ar Ymchwiliad Phillips (BSE) i Gymru.

## Crynodeb/Argymhellion

2. Amgaeir crynodeb o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor blaenorol yn y tabl yn Atodiad 1 ynghyd ag adran gyfatebol sy'n dangos hynt y gwaith a wnaed ym mhob maes.

## Y cefndir

3. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar Ymchwiliad Phillips ym mis Hydref 2000. Y cylch gorchwyl oedd:

"Cadarnhau ac adolygu hanes yr achosion o BSE a'r amrywiolyn newydd CJD a ganfuwyd yn y Deyrnas Unedig, a'r camau a gymerwyd mewn ymateb iddynt hyd at 20 Mawrth 1996; dod i gasgliadau ar ba mor ddigonol oedd yr ymateb hwnnw, gan ystyried faint oedd yn wybyddys amdanynt ar yr adeg honno; ac i hysbysu'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon am y materion hyn."

4. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar Ymchwiliad Phillips ddydd Iau 26 Hydref 2000. Mae'n 4,000 o dudalennau mewn 16 o gyfrolau. Mae copïau o'r adroddiad llawn ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau (copïau caled ac ar CD-rom). Mae testun yr Adroddiad hefyd i'w weld ar www.bseinquiry.gov.uk.

5. Yn yr adroddiad, nodir 166 o ganfyddiadau manwl yn deillio o'r ymchwiliad i'r digwyddiadau'n ymwneud â'r epidemig BSE. Mae'r Adroddiad yn cynnwys canfyddiadau ac argymhellion ynghylch sut i gynnal gweithgareddau sy'n berthnasol i bob Adran Iechyd yn y DU. Ymdrinniwyd â llawer o'r rhain ar lefel y DU gyfan a bu swyddogion o'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio'n agos â Whitehall er mwyn paratoi ymateb y Llywodraeth.

6. Ni luniwyd yr Adroddiad yn ffurfiol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ond mae llawer o'r pynciau y mae'n gwneud sylwadau arnynt wedi'u datganoli. Yn sgil

hynny, daethant yn rhan o gyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynwyd llawer o'r canfyddiadau gyda'r bwriad o gael Llywodraeth y DU i arwain trafodaeth arnynt.

7. Er hynny, roedd nifer o faterion yn deillio o'r Adroddiad ac o'r epidemig o'r amrywiolyn CJD a bu'r rhain yn destun trafodaeth yng nghyfarfod Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad ar 6 Rhagfyr 2000. Amgaeir copi o adroddiad y Pwyllgor yn Atodiad B.

8. At ddibenion y papur Pwyllgor hwn, amgaeir rhestr o'r canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed yn yr ymateb gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y tabl yn Atodiad A.

**Materion i'w Hystyried**

9. Mae CJD a vCJD yn parhau i beri pryder i'r gymuned wyddonol. Mae'n ymddangos nad ydym yn agosach at wneud diagnosis, heblaw am y diagnosis sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, nac ychwaith at ganfod ffordd o'u trin.

10. Yn ôl y dadansoddiad o'r data diweddaraf a gyhoeddir bob mis, mae'r nifer sy'n marw o vCJD yn y DU yn parhau i ddangos tystiolaeth arwyddocaol ystadegol nad yw'r epidemig yn lledu'n gyflymach. Mae'r patrwm ystadegol cwadratig yn awgrymu y gallai'r epidemig fod wedi cyrraedd penllanw ym mis Awst 1999 (95% CI Tachwedd 98-Awst 2002) ers yr achosion cyntaf o'r clefyd. Mae'n rhy gynnar i gasglu bod tystiolaeth bendant fod yr epidemig wedi cyrraedd penllanw. Ni all y data ychwaith ddiystyru'r posibilrwydd y bydd yn ei anterth eto yn y dyfodol. Serch hynny, mae hwn yn arwydd calonogol arall.

11. Bydd sefydlu archif genedlaethol o donsilau a dynnwyd ar ôl llawdriniaeth yn arwydd o nifer y bobl sydd wedi'u trin. Nid yw'r archif yn enwi unigolion, ac felly ni chaiff ei defnyddio i olrhain pobl sy'n dioddef o CJD/vCJD.

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

12. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi ac ystyried hynt y gwaith o weithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol ym mis Chwefror 2001 ar oblygiadau'r Adroddiad ar Ymchwiliad Phillips (BSE).

**Jane Hutt AC**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Swyddog Cyswllt: Marie Knox, Yr Is-adran Diogelu Iechyd y Cyhoedd